Briff Ymchwil

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Awdur: **Wendy Dodds**

Dyddiad: **Medi 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Wendy Dodds**
Dyddiad: **Medi 2017**
Rhif Papur: **17-024**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

: 0300 200 6548
: Wendy.Dodds@Cynulliad.Cymru
: Cynulliad.Cymru/Pigion
: @SeneddYmchwil
: Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
2. Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 1
3. Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru 1
4. Cynlluniau Rheoli Traethlin 2
5. Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol 3
6. Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol 3
7. Cyllid Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 4
8. Adroddiadau ac Adolygiadau Allweddol 5
   - Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru 5
   - Swyddfa Archwilio Cymru 5
   - Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru 5
   - Adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Adran 18 *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* 5
9. Rhagor o wybodaeth 6

1. Cyflwyniad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod 208,500 o eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr, mae 163,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb ac mae 2126 o eiddo mewn perygl o erydu arfordirol erbyn 2114 os na chaiff amddiffynfeydd eu cynnal (yn seiliedig ar ddata 2014). Amlygodd y stormydd arfordirol yn ystod gaeaf 2013-14 y difrod a'r aflonyddwch a all ddigwydd, gan effeithio ar gymunedau, busnesau a'r economi ehangach. Mae llifogydd hanesyddol yng Nghymru, fel **Trychineb Tywyn** ym 1990, hefyd yn dangos pa mor agored i niwed arfordirol y mae arfordir Cymru. Rhagwelir y bydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd yn amlach ac yn fwy difrifol, gydag **Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU ar gyfer Cymru** yn nodi peryglon sylweddol o ran newid hinsawdd ar gyfer Cymru a mwy o gamau sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â hwy.

Er nad yw'n bosibl atal pob achos o lifogydd ac erydu arfordirol, gellir rheoli peryglon a thrwy wneud hynny, gellir lleihau'r effeithiau ar gymunedau arfordirol sy'n agored i niwed. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu polisi Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) ar gyfer Cymru.

2. Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Derbyniodd ***Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010*** (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 8 Ebrill 2010. Diweddarodd y ddeddfwriaeth sy'n rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r Ddeddf yn diffinio llifogydd fel unrhyw achos lle mae tir nad yw fel arfer yn cael ei orchuddio mewn dŵr yn cael ei orchuddio mewn dŵr. Mae'r Ddeddf yn diffinio erydu arfordirol fel erydu arfordir unrhyw ran o Loegr neu Gymru.

Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn diffinio rolau a chyfrifoldebau 'Awdurdodau Rheoli Risg'. Yng Nghymru, y rhain yw Cyfoeth Naturiol Cymru, pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (sy'n gweithredu fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol), awdurdodau priffyrdd a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Mae cyrff eraill sydd â rôl anstatudol yn FCERM, gan gynnwys perchnogion tir preifat a pherchnogion asedau seilwaith megis Network Rail a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

3. Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

O dan y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru ddatblygu, cynnal a chymhwyso strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru (y Strategaeth Genedlaethol).

Mae'r **Strategaeth Genedlaethol** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011 gan Lywodraeth Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru ac mae'n cynnwys pedwar amcan cyffredinol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol:

- Lleihau'r canlyniadau ar gyfer unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd rhag llifogydd ac erydu arfordirol;
- Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â phobl mewn perthynas â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol;
- Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd ac erydu arfordirol; a
- Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y Strategaeth Genedlaethol yn cynrychioli newid yn y ffordd yr ymdrinnir â llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, gan symud o ymdrin ag amddiffyn a draenio yn unig, i ymdrin â dulliau cynaliadwy ac arloesol, a gweithio gyda phrosesau naturiol yn hytrach nag yn eu herbyn.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi mai cyfrifoldeb pawb sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol neu sy'n cael ei effeithio gan hyn yw rhoi'r amcanion hyn ar waith, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg Cymru[1]. Bwriad y Strategaeth Genedlaethol yw cefnogi gweithrediadau a phenderfyniadau lleol o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn ffordd gydgysylltiedig ledled Cymru.

Mae adroddiadau ar gynnydd y Strategaeth Genedlaethol i'w gwneud bob dwy flynedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r rhain gynnwys pob agwedd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a wneir gan yr holl Awdurdodau Rheoli Risg. Hyd yma, mae dau adroddiad wedi'u paratoi - gweler adran 8: Adroddiadau ac Adolygiadau Allweddol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau cydymffurfiad â'r Strategaeth Genedlaethol. Mewn **tystiolaeth ysgrifenedig (PDF 196KB)** i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 20 Gorffennaf 2017 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y caiff y Strategaeth Genedlaethol ei diweddaru yn 2018.

4. Cynlluniau Rheoli Traethlin

Asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol yw Cynllun Rheoli Traethlin, a'i nod yw lleihau'r peryglon hyn i bobl ac i'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol. Mae'r Cynlluniau hyn yn nodi'r asedau y gallai llifogydd neu erydu arfordirol effeithio arnynt, yn monitro newid, ac yn amlinellu amcanion a pholisi ar gyfer amddiffyniad arfordirol lleol.

Caiff y cynlluniau eu datblygu gan Grwpiau Arfordirol sy'n cynnwys Awdurdodau Gweithredol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill sydd â chyfrifoldebau arfordirol. Defnyddir arian Llywodraeth Cymru i ymgysylltu ag ymgynghorwyr peirianneg sy'n paratoi'r cynllun ar ran y grŵp. Dylai'r gwaith o lunio'r cynllun ddilyn **canllawiau** Defra 2006 sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi'r dulliau mwyaf cynaliadwy o reoli'r peryglon i'r arfordir ar draws tri chyfnod: y tymor byr (0-20 mlynedd), y tymor canolig (20-50 mlynedd) a'r tymor hir (50-100 mlynedd). Mae'r cynlluniau'n ystyried ac yn cynnig y pedwar opsiwn polisi safonol ar gyfer is-adrannau'r arfordir i greu fframwaith polisi:

- **Cynnal y llinell amddiffyn bresennol** - drwy gynnal neu newid safon y diogelwch presennol. Gall hyn gynnwys dulliau amddiffyn gwahanol, gan gynnwys peirianneg galed a meddal megis waliau môr a maeth y traeth;
- **Ymestyn y llinell amddiffyn bresennol** - drwy adeiladu amddiffynfeydd newydd ar ochr y môr o’r amddiffynfeydd gwreiddiol. Mae'r opsiwn hwn wedi'i gyfyngu i'r blaenau hynny lle mae adfer tir sylweddol yn cael ei ystyried ac nid oes unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol neu beirianyddol sylweddol;
- **Adlinio wedi'i reoli** (cilio a reolir) - drwy ganiatáu i'r draethlin symud yn naturiol naill ai'n ôl neu ymlaen, ond gyda rhywfaint o arolygu i reoli neu gyfyngu ar ei symudiad. Nodi llinell newydd ar

gyfer amddiffynfeydd arfordirol a, lle bo'n briodol, adeiladu amddiffynfeydd newydd ar linell wahanol i'r amddiffynfeydd gwreiddiol; a

- **Dim ymyriad gweithredol** - lle na fydd unrhyw fuddsoddiad arfaethedig mewn amddiffynfeydd neu weithrediadau arfordirol. Fodd bynnag, bydd angen monitro ac archwilio'r draethlin o hyd.

Dylid nodi nad yw dyrannu mathau penodol o bolisi yn y Cynllun Rheoli Traethlin yn golygu bod yr Awdurdodau Gweithredol wedi sicrhau'r cyllid i gyflawni'r polisïau hyn. Mae'r polisïau yn y cynllun yn uchelgeisiol a'r Awdurdod Lleol perthnasol fydd yn bwrw ymlaen â hwy drwy strategaeth neu gynllun arfordirol lleol.

Yng Nghymru mae pedwar **Cynllun Rheoli Traethlin ail genhedlaeth** (CRhT2) a phum Grŵp Arfordirol:

- **CRhT2 Aber Afon Hafren** (Anchor Head i Drwyn Larnog) **Grŵp Arfordirol Aber Afon Hafren** - – *trawsffiniol â Lloegr*;
- **CRhT2 De Cymru** (Trwyn Larnog i Ben St Ann) **Grŵp Peirianneg Arfordirol Bae Abertawe a Bae Caerfyrddin**;
- **CRhT2 Gorllewin Cymru** (Pen St Ann i'r Gogarth) **Bae Ceredigion ac Ynys Enlli i Grwpiau Arfordirol y Gogarth**; a
- **CRhT2 Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru** (Pen y Gogarth i Ffin yr Alban) **- Grŵp Arfordirol Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru** - *trawsffiniol â Lloegr*.

Fel dogfennau polisi anstatudol, rhaid i Gynlluniau Rheoli Traethlin gael eu cymeradwyo gan aelodau o'r Grŵp Arfordirol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Cymeradwywyd y pedwar CRhT2 yng Nghymru gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol ar y pryd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2014.

5. Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

O dan *Reoliadau Perygl Llifogydd 2009*, mae'n ofynnol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol nodi a mapio peryglon a risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau hyn i ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol. Cyhoeddwyd **canllawiau** Llywodraeth Cymru ar baratoi Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ym mis Tachwedd 2011. Mae'r Strategaethau Lleol hyn yn eistedd islaw, ac yn ategu, y Cynlluniau Rheoli Traethlin a'r Strategaeth Genedlaethol. Dylent fynd i'r afael â 'pheryglon llifogydd lleol' a all gynnwys peryglon llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr wyneb a dŵr daear. O dan y canllawiau, dylai'r Strategaeth Leol nodi'r Awdurdodau Rheoli Risg gyda'u rolau a'u swyddogaethau, yn ogystal â chyfrifoldebau perchnogion tai a thir sydd â chyrsiau dŵr ar eu tir neu gerllaw eu tir. Dylent hefyd nodi'r hyn y gall cymunedau a thrigolion ei wneud i leihau'r peryglon o lifogydd i'w heiddo a sut y gellir gwneud eiddo'n fwy gwydn, lle na ellir osgoi neu leihau llifogydd.

6. Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Mae Adran 81(1) o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Bydd hyn yn disodli'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW) blaenorol a ddiddymwyd gyda chyflwyniad *Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 3) 2017* ar 14 Gorffennaf 2017. Un o brif weithgareddau'r Pwyllgor oedd cydsynio a chraffu ar raglen rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol rhanbarthol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae

Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu Grŵp Cynghori Llifogydd i adolygu a chraffu ar raglen waith Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfamser er mwyn sicrhau craffu priodol.

Mae ***Rheoliadau Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru 2017*** **(PDF 60KB)** yn nodi dyletswyddau, pwerau, aelodaeth a threfniadau adrodd y pwyllgor newydd. Wrth gynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r Pwyllgor yng Nghymru a rhoi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol i holl Awdurdodau Rheoli Risg Cymru, bydd ganddo rôl a chylch gorchwyl ehangach na'r Pwyllgor blaenorol. Disgwylir i Weinidogion Cymru benodi Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor cyn diwedd 2017.

7. Cyllid Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Ers 2010-11, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £381 miliwn i FCERM. Mewn **tystiolaeth ysgrifenedig (PDF 196KB)** i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 20 Gorffennaf 2017, amlinellodd ysgrifennydd y Cabinet y buddsoddiadau a ganlyn:

> *Yn ystod y flwyddyn ariannol hon byddwn yn buddsoddi dros £54 miliwn (cyfalaf a refeniw) i gefnogi gweithgareddau a chynlluniau i leihau perygl llifogydd ac arfordiroedd ar draws Cymru. [...] Rydym wedi ymrwymo i barhau i ariannu gwaith rheoli perygl llifogydd ar raddfa fach, gan ddarparu llwybr symlach i awdurdodau lleol wneud cais am arian ar gyfer cynlluniau hyd at £100,000. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon byddwn yn darparu £2 filiwn ar gyfer y grant hollbwysig hwn. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar gynlluniau ar gyfer buddsoddi cyfalaf o £150 miliwn mewn rheoli risg arfordiroedd gyda chyllid ar gyfer adeiladu yn dechrau o 2018-19.*

Mae **adroddiad** Swyddfa Archwilio Cymru o 2016 yn nodi bod cyllid wedi bod yn weddol sefydlog o 2010-11 i 2016-17, gydag amrywiad yng nghyllid yr UE o un flwyddyn i'r llall. O ran ei hymagwedd tuag at gyllid, **dywedodd** Llywodraeth Cymru yn 2014:

> *Mae rheoli'r perygl llifogydd ac erydiad ar yr arfordir yn parhau'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Ni fyddwn yn gwybod beth yw ein setliad ar gyfer 2016-17 a'r tu hwnt nes cynhelir Adolygiad o Wariant 2015. Fodd bynnag, mae'n edrych yn debygol y bydd cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn parhau. Er bod yr ansicrwydd ynghylch ein setliad ar ôl 2015/16 yn parhau, byddwn yn dal i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i fuddsoddi o fewn y gyllideb sydd gennym.*

Yn 2016-17 cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru dros hanner cyllideb FCERM Llywodraeth Cymru. Cafodd cyllid hefyd ei roi i awdurdodau lleol a chyrff ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Strategaeth Genedlaethol bod y gyllideb ar gyfer gwaith llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru wedi'i gyfyngu gan Lywodraeth y DU drwy'r grant bloc blynyddol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol hefyd yn pwysleisio, wrth i lefel a natur y perygl newid yn y dyfodol, y bydd angen i Awdurdodau Rheoli Risg Cymru ddod o hyd i ffynonellau cyllid eraill i sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn derbyn y lefel o gyllid sydd ei angen arnynt i reoli'r risgiau y maent yn eu hwynebu. At hynny, mae'n tynnu sylw at y ffaith bod **adroddiad (PDF 1.24MB)** 2010 Asiantaeth yr Amgylchedd yn awgrymu, er mwyn cynnal y lefelau perygl presennol dros y 25 mlynedd nesaf, efallai y bydd angen i Gymru dreblu'r lefelau buddsoddi cyfredol.

8. Adroddiadau ac Adolygiadau Allweddol

Bu nifer o adolygiadau i arferion FCERM yng Nghymru. Darperir trosolwg byr o'r adroddiadau a'r adolygiadau allweddol isod:

Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru

Yn dilyn stormydd y gaeaf yn 2013/14, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru arwain Arolwg o Lifogydd Arfordirol Cymru. Edrychodd Cam 1 ar effeithiau a chostau a nododd Cam 2 y gwersi a ddysgwyd o'r llifogydd arfordirol. **Roedd Cam 1** yn amcangyfrif bod difrod gwerth £8.1 miliwn wedi'i wneud i amddiffynfeydd arfordirol mewn 175 o leoliadau yng Nghymru, a bod tua 360 hectar o dir amaethyddol wedi'i orlifo. Nododd y gallai'r effeithiau fod wedi bod yn waeth, gyda'r amddiffynfeydd presennol yn diogelu llawer o eiddo a thir fferm. Roedd Cam 2 yn nodi 47 o argymhellion er mwyn helpu i ddarparu gwasanaeth rheoli llifogydd ac erydu arfordirol mwy gwydn i Gymru. Cyhoeddwyd cynllun cyflenwi ym mis Ionawr 2015 yn nodi sut y byddai'r rhain yn cael eu gweithredu. Roedd **ymateb** Llywodraeth Cymru naill ai'n derbyn y 47 o argymhellion yn llwyr neu mewn egwyddor, gan gwmpasu meysydd megis rhagweld llifogydd, rhybuddion llifogydd ac ymatebion y gymuned, gwydnwch seilwaith, ymatebion gweithredol i ddigwyddiadau a buddsoddiadau mewn amddiffynfeydd.

Swyddfa Archwilio Cymru

Yn 2016, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru **adroddiad** ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o'r **adroddiad** cynharach yn 2009. Roedd canfyddiadau cyson yn y ddau gyhoeddiad yn ymwneud â'r capasiti a'r gyllideb gyfyngedig o fewn Awdurdodau Lleol arfordirol a Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r arfordir, a bod angen gwelliannau clir i drefniadau llywodraethu. Yn ei **hymateb (PDF 214KB)** i adroddiad 2016, nododd Llywodraeth Cymru fod y ddau adolygiad o'r Strategaeth Genedlaethol a sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd yn darparu cyfleoedd clir i ystyried y pwyntiau a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn 2010 ac eto yn 2017 ymgymerodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ag ymholiadau i FCERM. Roedd **adroddiad (PDF 783KB)** y Pwyllgor ym mis Mehefin 2017 yn cynnwys 12 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Amlygodd, yn ystod yr ymchwiliad, mai thema ailadroddus a nodwyd oedd diffyg arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft, diffyg ymagwedd strategol tuag at adlinio wedi'i reoli. Roedd **ymateb** Llywodraeth Cymru yn derbyn y mwyafrif o'r argymhellion. Yn yr un modd, mae **adroddiad (PDF 1.8MB)** y Pwyllgor yn 2010 wedi nodi pryderon gyda chapasiti ac arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru, a galwodd am gyfathrebu gwell mewn perthynas â pherygl arfordirol i gymunedau, gan gynnwys dealltwriaeth o beth y mae symud i ffwrdd o'r dull traddodiadol sy'n canolbwyntio ar yr amddiffyniad yn ei olygu mewn gwirionedd.

Adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Adran 18 *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010*

Mae Adran 18 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd i Weinidogion Cymru ar ei weithgareddau a'i gynnydd yn erbyn y Strategaeth Genedlaethol. Hyd yma, mae dau adroddiad wedi'u paratoi, gyda'r mwyaf **diweddar ar gyfer y cyfnod 2014-2016**. Mae'n nodi bod £116 miliwn o fuddsoddiad FCERM rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2016 wedi lleihau perygl llifogydd i dros 5000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru, yn ogystal â seilwaith pwysig. Mae'n

pwysleisio bod angen i ddulliau rheoli perygl yn y dyfodol edrych y tu hwnt i ddulliau traddodiadol, gan roi mwy o ystyriaeth i atebion ym myd natur a seilwaith gwyrdd.

9. Rhagor o wybodaeth

- **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol** Llywodraeth Cymru.
- **System Mapio a Rhybuddio Perygl Llifogydd** Cyfoeth Naturiol Cymru
- **Flood Awareness Wales**